



Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Busnes (Rhan-Amser)

Mae cyfryngau cymdeithasol i fusnesau bellach yn fwy effeithiol nag erioed, os ydych chi am wella cyfryngau cymdeithasol eich busnesau yna fe allai'r cwrs hwn fod ar eich cyfer chi.

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at berchnogion busnes, marchnatwyr, gweithwyr proffesiynol cysylltiadau cyhoeddus a phob unigolyn sy'n awyddus i ddod i ddeall sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i greu cynnwys hyrwyddo deniadol.

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys:

- Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook, Twitter, LinkedIn, Instagram
- Deall sut mae gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gweithio, eu gwahaniaethau a'u manteision eu hunain
- Offer ar gyfer greu, monitro a chyhoeddi cyfryngau cymdeithasol
- Ennill hyder yn eich gweithgaredd marchnata cyfryngau cymdeithasol
- Creu cynnwys deniadol

Os ydych chi dros 19 oed ac yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd fe allech chi fod yn gymwys ar gyfer cwrs AM DDIM o dan gyllid Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) Llywodraeth Cymru. Gallwn drafod cyllid gyda chi ar ôl ymchwilio.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad. Fodd bynnag, mae angen i chi fod â diddordeb brwd mewn Cyfrifiadura

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cwrs hwn yn fuddiol i bob marchnatwr a pherchennog busnes ac mae'n gwrs gwych ar gyfer datblygu gwybodaeth cyfryngau cymdeithasol

Asesiad

Asesiad mewnol trwy dasgau rheoledig a chynhyrchu portffolio o dystiolaeth



GRŴP COLLEGAU **NPTC** GROUP OF COLLEGES

Datblygu Busnes
Business Development



Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

HYD Y CWRS

1D